**Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol Eryri**

**Snowdonia Local Development Plan Revision Examination**

**Richard Duggan** BSc(Hons) DipTP MRTPI
Arolygydd Cynllunio / Planning Inspector
**Rhian Randall**: Swyddog Rhaglen / Programme Officer
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol / National Park Office
Penrhyndeudraeth
Gwynedd
LL48 6LF

Ffôn / Tel 01766 772203
swyddogrhaglen@eryri.llyw.cymru
programmeofficer@snowdonia.gov.wales

30 Ebrill 2018

Ms Rebeca Jones
Pennaeth Polisi Cynllunio
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol
Penrhyndeudraeth
Gwynedd, LL48 6LF

Annwyl Ms Jones,

**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri**
**Archwiliad Adolygu Cynllun Datblygu Lleol 2016 - 2031**

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 21 Chwefror 2018, gallaf gadarnhau y bydd yr Archwiliad o'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn ailgychwyn ar 30 Ebrill 2018.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ar y Newidiadau â Ffocws ddod i ben ar 27 Ebrill, hyderaf y byddwch yn darparu'r holl gopïau caled o'r cynrychiolaethau a'r dogfennau a gyflwynwyd, gan gynnwys dogfennau wedi'u cyfieithu, i'r Swyddog Rhaglen oherwydd bydd angen iddynt gael eu hanfon ymlaen ataf i.

O ran yr amserlen ar gyfer cam nesaf yr Archwiliad, rwyf bellach yn gweithio tuag at gynnal y sesiwn wrandawiad gyntaf ar ddydd Mawrth 17 Gorffennaf, ac ni ddisgwyliaf i'r gwrandawiadau bara mwy na 3-4 diwrnod (17 - 20 Gorffennaf). Rwyf hefyd wrthi ar hyn o bryd yn cwblhau'n derfynol y Materion i'w trafod yn y sesiynau gwrandawiad, y rhestr o'r rhai a fydd yn bresennol a Nodiadau Canllaw'r Arolygydd i Gyfranogwyr, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'r holl gyfranogwyr, ynghyd â'r amserlen derfynol ar gyfer y gwrandawiadau, yn ystod yr wythnos a fydd yn dechrau ar 14 Mai 2018. Disgwylir mai dydd Iau 21 Mehefin fydd y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion a datganiadau gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol a chyfranogwyr eraill.

Os hoffech gael eglurhad pellach o unrhyw un o'r pwyntiau uchod, mae croeso i chi gysylltu â mi trwy'r Swyddog Rhaglen.

Yn gywir,

*Richard Duggan*

**Richard Duggan**
**AROLYGYDD**

c.c Mark Newey, Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru